OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 544

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017

## RHAN 7

### Y weithdrefn ar ôl sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ymchwiliadau neu achosion cyfunol

PENNOD 3

**Hysbysiad am benderfyniad**

**49.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru neu'r person penodedig, yn ôl y digwydd, anfon y penderfyniad ar apêl, a'u rhesymau dros ddod i'r penderfyniad hwnnw, yn ysgrifenedig at—

(a) yr apelydd;

(b) yr awdurdod cynllunio lleol;

(c) y personau a gymerodd ran yn yr achosion;

(d) unrhyw berson arall a ofynnodd i gael hysbysiad ynghylch y penderfyniad ac y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn rhesymol ei hysbysu.

(2) Pan na fo copi o adroddiad y person penodedig yn cael ei anfon gyda'r hysbysiad am benderfyniad, rhaid i'r hysbysiad ddod gyda datganiad o gasgliadau'r person penodedig ac unrhyw argymhellion a wnaed gan y person penodedig, ac os nad yw person sydd â hawl i gael hysbysiad am y penderfyniad wedi cael copi o'r adroddiad hwnnw, rhaid cyflenwi copi o'r adroddiad hwnnw i'r person hwnnw ar gais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

(3) Yn y rheoliad hwn nid yw "adroddiad" ("*report*") yn cynnwys unrhyw ddogfennau a atodir i'r adroddiad; ond caiff unrhyw berson sydd wedi cael copi o'r adroddiad wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru, o fewn 6 wythnos i ddyddiad penderfyniad Gweinidogion Cymru, am gyfle i weld unrhyw ddogfennau o'r fath, a rhaid i Weinidogion Cymru roi'r cyfle hwnnw i'r person hwnnw.

(4) Rhaid i unrhyw berson sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru o dan baragraff (2) sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael y cais o fewn 4 wythnos i benderfyniad Gweinidogion Cymru.